OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 736 (Cy. 139)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gwnaed - - - - 27 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael(**2**).

**Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003**

**2.** Yn rheoliad 1(4) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003(**3**), yn y diffiniad o "money market fund", hepgorer paragraff (a).

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

27 Mawrth 2019

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) Mae "exit day" ("diwrnod ymadael") wedi ei ddiffinio yn adran 20(1) i (5) (dehongli) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
(**3**) O.S. 2003/3239 (Cy. 319). Gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 2018/325 (Cy. 61).

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "money market fund" yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3239 (Cy. 319)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.